# Arwain y gwaith o hybu'r gweithle

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth arwain y gwaith o hybu'r gweithle a'r gwasanaethau mae'n eu darparu. Mae'r gofynion yn cynnwys datblygu cynlluniau i hybu'r gweithle a'i wasanaethau, cyfleu gwybodaeth allweddol i gynulleidfaoedd targed, a gwerthuso effeithiolrwydd gweithgareddau hybu.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi cynulleidfaoedd targed a'r hyn a allai fod o ddiddordeb iddynt o ran y gweithle a'r gwasanaethau mae'n eu darparu
2. nodi a chytuno ag eraill ynghylch gwybodaeth allweddol i'w chyfleu, a sicrhau ei bod yn gywir ac yn unol â gofynion y gweithle
3. nodi a gwerthuso'r ffyrdd gorau o gyrraedd cynulleidfaoedd targed
4. dewis gweithgareddau hybu sy'n gynhwysol, yn hygyrch ac yn gynaliadwy yn unol ag adnoddau a gofynion y gweithle
5. cynllunio sut mae gwerthuso llwyddiant y gweithgareddau hybu
6. defnyddio digwyddiadau wedi'u cynllunio a chyfleoedd heb eu cynllunio i hybu'r gweithle a'r gwasanaethau mae'n eu darparu
7. rhoi cymorth i'r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith o hybu'r gweithle
8. rhoi cyfleoedd i'r gynulleidfa darged ofyn cwestiynau a chadarnhau ei bod yn deall gwybodaeth allweddol
9. defnyddio dulliau addas i werthuso a oedd yr wybodaeth allweddol yn taro tant â chynulleidfaoedd targed
10. dadansoddi canlyniadau gwerthusiadau a'u defnyddio i nodi arferion da a'r newidiadau sydd eu hangen ar gyfer gwaith hybu yn y dyfodol
11. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain y gwaith o hybu'r gweithle
12. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth arwain y gwaith o hybu'r gweithle

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gweithle, ei bwrpas, ei werthoedd a’r gwasanaethau mae’n eu darparu
2. cynulleidfaoedd targed a’u diddordeb yn y gweithle
3. cynllun hybu’r gweithle
4. sut mae dewis y cyfleoedd mwyaf effeithiol i gyfleu gwybodaeth allweddol o blith ystod o weithgareddau hybu
5. gyda phwy mae angen i chi gytuno ar wybodaeth allweddol a chyfleu cynlluniau hybu cyn lledaenu gwybodaeth, a pham mae hyn yn bwysig
6. sut mae sicrhau pa mor gywir a chyfredol yw eich gwybodaeth
7. sut mae sicrhau cynhwysiant, hygyrchedd a chynaliadwyedd wrth rannu gwybodaeth am y gweithle a’r gwasanaethau mae’n eu darparu
8. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol wrth hybu’r gweithle
9. pwy sydd ar gael i hybu eich gweithle a’i wasanaethau, a sut i’w cefnogi â’u rolau a’u cyfrifoldebau
10. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth hybu’r gweithle
11. sut mae cyfathrebu gwybodaeth gymhleth yn effeithiol â chynulleidfaoedd amrywiol
12. dylanwad diwylliant a chefndir y gynulleidfa darged ar weithgareddau hybu
13. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol y gynulleidfa darged ar weithgareddau hybu
14. sut mae rhoi cyfleoedd i gynulleidfaoedd targed ofyn cwestiynau a chael eglurhad
15. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth hybu’r gweithle
16. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol yn ystod gweithgareddau hybu
17. dulliau ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau a gweithgareddau hybu
18. sut mae defnyddio gwybodaeth y gwerthusiad i nodi arferion da a’r newidiadau sydd eu hangen ar gyfer gweithgareddau hybu yn y dyfodol
19. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain y gwaith o hybu’r gweithle
20. theorïau sy’n berthnasol i arwain y gwaith o hybu’r gweithle
21. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain y gwaith o hybu’r gweithle
22. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio

wrth arwain y gwaith o hybu’r gweithle, a sut i fynd i'r afael â hyn

23. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth arwain y gwaith o hybu’r gweithle

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD423

Arwain y gwaith o hybu’r gweithle

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD423 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Arwain, Hybu'r gweithle, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |